



# Cymunedau Creadigol Llewyrchus yn Aberystwyth

## Adroddiad am yr Hyn a Glywsom

FLOURISHCAFÉ
Diversity | Voice | Connection

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
Canolfan Ddeialog
Dialogue Centre

## Crynodeb

Ar 15 Gorffennaf 2023, daeth 35 aelod o gymunedau creadigol Aberystwyth at ei gilydd yn y Bandstand ar y prom i ystyried sut y gallai mentrwyr creadigol a'r diwydiannau creadigol yn yr ardal 'flodeuo'. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Ganolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth, ac fe gafodd ei ddylunio a'i hwyluso gan FlourishCafe™.

Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys artistiaid, ffotograffwyr, cerddorion a pherfformwyr unigol yn ogystal ag aelodau o Rotari Aberystwyth, Clwb Busnes Aberystwyth a staff o gyrff celfyddydol megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Theatr Arad Goch ac Amgueddfa Ceredigion. Roedd cynrychiolwyr etholedig o Gyngor Tref Aberystwyth a rhai o swyddogion Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn bresennol.

Roedd y prynhawn yn cynnwys anerchiadau gan y siaradwyr gwadd Jacob Elis, sydd yn Arweinydd Ysgogi Newid i Faterion Cyhoeddus a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a'r perchennog busnes lleol, Julien Shelley. Yn ail hanner y digwyddiad gofynnwyd i'r cyfranogwyr feddwl am sut olwg fyddai ar ddiwydiannau creadigol llewyrchus yn Aberystwyth a'r fro, yn ogystal ag ystyried rhai o'r heriau a'r cyfleoedd.

### Dyma'r themâu allweddol a rannwyd gan y cyfranogwyr:

- *Cydweithrediad*: dylem fod yn meithrin cydweithio yn lle cystadlu er mwyn helpu ein gilydd i flodeuo.
- *Cyswllt:* dylai llunwyr polisi feithrin cysylltiadau ystyrlon â'r gymuned leol, ac mae hynny'n golygu gwrando - a dangos eu bod yn gwrando - a gweithredu tuag at ddyfodol sydd wedi'i greu a'i gynllunio ar y cyd,
- *Cefnogaeth*: i'r economi leol a chylchol lle mae gan y celfyddydau a diwylliant le canolog.

### Pwyntiau trafod:

**Materion a godwyd**: teimlad bod yr arweinyddiaeth yn ddiymateb ac yn cadw o hyd braich, nad yw polisïau na'r cymorth sydd ar gael yn edrych y tu hwnt i'r byrdymor, ac nad oes gweledigaeth gydlynol ac ysgogol i Aberystwyth a'r cyffiniau.

**Tarfu creadigol – creu syniadau ar gyfer newid:** ystyriwyd ei bod hi'n bwysig mentro a chymryd risgiau oherwydd bod hynny'n creu posibiliadau newydd, dyfodol newydd, a gobeithion newydd. Er bod creadigrwydd yn cael ei weld yn fraint, mae'n nodwedd ddiwylliannol y mae pawb yn y gymuned yn elwa ohoni ac felly fe ddylai gael gwell cefnogaeth.

**Ffyniant (blodeuo):** Cydnabuwyd pa mor bwysig yw 'blodeuo' i fentrwyr creadigol. Gwelwyd bod hynny'n golygu 1) sicrwydd ariannol i ddarparu sylfaen 2) iechyd a lles 3) rhinweddau a nodweddion personol sy'n cynnwys: gwytnwch, ymreolaeth, gallu ymaddasu a gweledigaeth bersonol.

**Awgrymiadau ymarferol:** Yr angen am fwy o le ar gyfer gweithgareddau creadigol yn ardal Aberystwyth, mae lleoedd fforddiadwy yn fuddsoddiad sy'n dda i'r economi a'r gymuned, trafnidiaeth yng nghefn gwlad, 'Llyfrgell ddynol', cynnwys y Cymry ar wasgar mewn materion lleol, rhaglenni mentora, mannau ar gyfer deialog, a chyd-ddylunio polisïau'r dyfodol, yn ymgorffori safbwyntiau lleol yn y strategaethau lleol mewn modd ystyrlon.

### Adborth o'r digwyddiad a all ddylanwadu ar weithgareddau cyfranogol yn y dyfodol:

- Canolbwyntio cyfranogiad cyhoeddus ar anghenion ac atebion penodol

- Defnyddio hwyluswyr sy’n medru’r Gymraeg wrth feithrin cysylltiadau â'r diwydiannau creadigol yn y Canolbarth.
- Gwerthfawrogi amser ac arian, gan lunio agendâu effeithlon a darparu iawndal.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y digwyddiad, mwy o fanylion am y themâu a drafodwyd, ac argymhellion ar gyfer cyfranogiad yn y dyfodol.











*Awgrym ar gyfer Cyfeirio at y Ddogfen: Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth 2023. Cymunedau Creadigol Llewyrchus yn Aberystwyth: Adroddiad am yr Hyn a Glywsom. Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Cymru.*

## Ynglŷn â'r Digwyddiad

Corff cymunedol a menter gymdeithasol, nid-er-elw, yw FlourishCafé™ sy'n cael ei arwain gan Dr. Eri Mountbatten O'Malley. Wedi'i lywio gan ymchwil a theori sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, prif nod FlourishCafé™ yw meithrin gwell dealltwriaeth am sut y gallwn helpu i sicrhau bod pawb yn ein cymunedau yn llewyrchus ac yn 'blodeuo', drwy arddel safbwynt llawr gwlad. Trwy amryw ddigwyddiadau, mae FlourishCafé™ yn gweithredu fel sbardun i ysgogi trafod ar bob lefel, boed hynny'n lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, i bwyso a mesur beth mae 'blodeuo' yn ei olygu i gymunedau, a sut y gallant gydweithio i wireddu eu gweledigaethau. Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u cynllunio'n feddylgar i annog cymunedau i arafu ac i wneud synnwyr o bethau gyda'i gilydd cyn gweithredu.

Mae FlourishCafé™ yn arddel dull 'Caffi'r Byd', wedi'i addasu, sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal trafodaethau bach a mawr ledled y byd. Mae'r dull hwn yn creu mannau croesawgar ac, fel arfer, mae'n annog y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn tair rownd o gwestiynau. Trafodir pob cwestiwn â 3-4 o bobl eraill am 20 munud, ac mae'r cwestiynau dilynol yn adeiladu ar sylfaen y rhai blaenorol, gan lywio cyfeiriad y sgwrs. Ar ddiwedd y rowndiau, mae'r cyfranogwyr yn rhannu eu sylwadau a'u meddyliau â'r grŵp cyfan er mwyn dod o hyd i'r themâu allweddol.

Dyma'r rowndiau cwestiynau a drafodwyd gan y cyfranogwyr yn ystod y digwyddiad ar 15 Mehefin:

- Beth mae 'blodeuo' yn ei olygu i chi? (Yn bersonol, yn gymunedol, yn gymdeithasol-wleidyddol)
- Sut gallwn ni fynd ati ar y cyd i ymdrin â'r heriau sy'n wynebu cymuned y diwydiant creadigol/diwylliannol yn Aberystwyth? (Rhannu profiadau o 'flodeuo' drwy adfyd, trafod yr hyn a oedd yn llwyddiannus, a pha welliannau y gellir eu gwneud)
- Yn eich barn chi, pa gymorth neu offer ymarferol sydd eu hangen er mwyn i gymuned y diwydiant creadigol/diwylliannol yn Aberystwyth 'flodeuo'? (Ystyried gwerthoedd a diddordebau ar y cyd, yn ogystal â chefnogaeth gan y gymuned, busnesau, y Ganolfan Ddeialog, a'r Awdurdod Lleol)
- Rownd 'cerdyn gwyllt' / Oriel: Nodi unrhyw fylchau o ran y wybodaeth neu'r trafodaethau, sef materion sy'n bwysig ac yn berthnasol ond na chawsant sylw hyd yn hyn.

## Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth


Cynhaliwyd y digwyddiad gan Ganolfan Deialog Prifysgol Aberystwyth a wahoddodd FlourishCafé™ i wahodd siaradwyr a hwyluso'r gweithgareddau.

Menter newydd yw'r Ganolfan Ddeialog, yn gweithio o fewn y Brifysgol a'r tu allan iddi, sy'n dod â sectorau amrywiol at ei gilydd i drafod materion o bwys. Yn gweithio o fewn Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi y Brifysgol, mae'r Ganolfan Ddeialog yn canolbwyntio ar hybu cyfnewid gwybodaeth ac atebion sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth i hyrwyddo economïau cynaliadwy, dinasyddiaeth weithredol, ac ansawdd bywyd gwell yn y Canolbarth a'r tu hwnt.

Gweler deialog.aber.ac.uk i ddysgu mwy.

## Themâu Trafod:

Roedd y rowndiau trafod wedi'u seilio ar ystyried beth oedd 'blodeuo' yn ei olygu i'r cyfranogwyr o gefndiroedd Saesneg a'r rhai o gefndiroedd Cymraeg. Gwnaeth y cyfranogwyr drin a thrafod trosiadau am dwf, blodeuo, teithio a gwireddu. Roeddent yn pwysleisio bod blodeuo yn gofyn am y maetholion, y gefnogaeth a'r amodau priodol i ragori ac i dyfu i fod y gorau y gallent fod.




Crybwyllodd y siaradwyr Cymraeg nad oes cyfieithiad uniongyrchol am '*flourishing*' yn y Gymraeg ond bod y gair Saesneg yn agos at sawl ymadrodd neu air fel 'gwireddu, hapusrwydd, a ffynnu.' Y cyfieithiad mwyaf poblogaidd a gofleidiwyd gan y grŵp oedd 'blodeuo'.

Boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mae 'blodeuo' yn pwysleisio taith hunangyflawni sy'n gysylltiedig â lle, cymuned, creadigrwydd a dyheadau.

Yn ystod y rowndiau trafod o gwmpas y bwrdd, cofnododd y cyfranogwyr eu meddyliau ar y papur a oedd wedi'i daenu ar y byrddau. Cawsant eu hannog i greu diagramau, brasluniau a rhestrau gyda'i gilydd. Daeth sawl thema i'r amlwg ar gyfer y diwydiannau creadigol yn ardal Aberystwyth.

### Yr angen am le ar gyfer gweithgareddau creadigol

Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod gweithgareddau llewyrchus yn y celfyddydau cain, perfformio a llenyddiaeth yn ddibynnol iawn ar sicrhau mannau hygyrch, croesawgar ac ymarferol ar gyfer creu a rhannu gweithgareddau creadigol. Er bod gan ardal Aberystwyth theatrau, orielau a lleoliadau cyhoeddus eraill i roi llwyfan i greadigrwydd, roedd teimlad cyffredin ar led fod angen mwy o fannau pwrpasol lle y gallai artistiaid ac aelodau o'r diwydiannau creadigol wneud eu gwaith. Teimlai'r

cyfranogwyr yn gryf y byddai mwy o weithdai, stiwdios, mannau arddangos a mannau ymarfer yn meithrin twf y diwydiannau creadigol.

## Buddsoddiad da yw mannau fforddiadwy



Pwysleisiodd y cyfranogwyr pa mor bwysig yw stiwdios a mannau arddangos fforddiadwy yn ogystal â'r angen am wahanol fannau a ddyluniwyd i’w defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Dywedasant y byddai cael y cyfle i ddefnyddio mannau fforddiadwy yn gwireddu dau ofyniad allweddol ar gyfer sicrhau cymunedau creadigol llewyrchus.

Yn gyntaf, mae mannau fforddiadwy yn hwyluso gwaith creu cynnyrch creadigol a mentergarwch creadigol newydd. Drwy gael y cyfle i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i gynhyrchu crefftau a chelfyddyd gain, mae hynny’n hwyluso eu cynhyrchiad. Mae lleoedd sy'n addas yn benodol ar gyfer ymarfer cerddoriaeth a theatr yn cefnogi datblygiad y meysydd hynny. Dywedodd y cyfranogwyr fod angen gwahanol fannau at wahanol anghenion ac amserlenni. Er enghraifft, os yw lleoedd ar agor yn ystod oriau busnes yn unig (dydd Llun i ddydd Gwener, 9-5), efallai na fydd hynny’n cyd-fynd ag amserlenni artistiaid. Yn hytrach, dylai cynlluniau gweithredu’r mannau hyn gyd-fynd â rhythmau creadigol yr artistiaid a'u hanghenion unigol.

Yn ail, mae'r mannau hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i feithrin cymunedau a chydweithredu, ac i ysbarduno syniadau newydd. Trafododd y cyfranogwyr sut mae gan ‘flodeuo’ gysylltiad agos â thwf a dwyn ffrwyth, yn ogystal â rhwydweithiau, meithrin chwilfrydedd, a gosod sylfeini cedyrn. Os oes gan artistiaid fannau pwrpasol i ymarfer eu celf, i gynnal gweithdai ysgrifennu, neu i rannu gwaith sydd ar y gweill yn ogystal ag arddangosfeydd gorffenedig, mae'n creu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer meithrin cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a chydweithio.


## Meithrin cydweithrediad yn hytrach na chystadleuaeth


Trwy gydol tair rownd y sgyrsiau, bu'r cyfranogwyr yn trafod yr heriau amrywiol sy’n wynebu’r diwydiannau creadigol yn Aberystwyth. Un mater amlwg a bwysleisiwyd oedd y frwydr sydd gan rai unigolion i oroesi yng nghanol yr argyfwng costau byw, ac roedd canfyddiad ar led nad oedd digon o gyfoeth yn cyrraedd y mannau lle’r oedd ei angen.

Soniodd y cyfranogwyr fod angen symud tuag at ddull cydweithredol o weithio yn hytrach na gosod unigolion a sefydliadau creadigol yn erbyn ei gilydd. Nodwyd bod y cylchau grantiau yn rhy aml yn canolbwyntio ar gystadleuaeth a chanlyniadau cul. Credent yn gryf y byddai pwysleisio cydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth yn agor cyfleoedd ar gyfer partneriaethau mwy effeithiol a ffrwythlon.


Crybwyllodd rhai byrddau yr ymdrechion cydweithredol a chydlynol sydd eisoes yn digwydd rhwng gwahanol fannau a sefydliadau. Roeddent yn credu y byddai annog dulliau o’r fath yn dyrchafu proffil Aberystwyth ac yn meithrin twf o fewn y diwydiannau creadigol a’r tu hwnt. Mae cydweithredu yn cyd-fynd yn berffaith â dyheadau cyfranogwyr am gyswllt, sylfaen gref, ac amgylchedd sy'n hybu creu syniadau ar y cyd.

Ar ben hynny, nododd cyfranogwyr gryfderau sy'n bodoli eisoes yn y gymuned y gellid eu harneisio er mwyn cydlynu rhaglenni, a mynd ati ar y cyd i chwilio am gyllid. Soniwyd am gynghreiriau naturiol fel y Clwb Busnes, Menter Aber, Rotari Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yr Ysgol Gelf, a Phrifysgol Aberystwyth yn ei chyfanrwydd fel chwaraewyr allweddol posib wrth feddwl am syniadau ar y cyd a chydlynu ymdrechion i sicrhau cyllid oddi wrth y Cyngor Tref a Chyngor Sir Ceredigion.



## Defnyddio dulliau cyd-ddylunio a rhwydweithiau




Yn ogystal â nodi'r grwpiau a'r sefydliadau presennol fel cryfderau a chyfleoedd i'r diwydiannau creadigol, pwysleisiodd cyfranogwyr pa mor bwysig yw arddel cyd-ddylunio a rhwydweithio wrth gynllunio camau gweithredu a chyflawni strategaethau. Tynnwyd sylw at ymdrechion blaenorol lle y defnyddiwyd dulliau hierarchaidd o'r brig i lawr a fu'n aneffeithiol ac aflwyddiannus (h.y. nid oedd syniadau a oedd yn llwyddiannus yng Nghaerdydd yn cyd-fynd ag anghenion cefn gwlad). Felly, fe wnaethant bwysleisio'r angen am gamau gweithredu sy'n gweithio ar bob lefel ac yn cynnwys rhanddeiliaid amrywiol.


Mynegodd cyfranogwyr fod ganddynt ddiddordeb brwd mewn tarfu ar systemau sefydledig a symud oddi wrth ddulliau sy'n gweithio o'r brig i lawr. Yn lle hynny, fe wnaethant alw am fwy o gefnogaeth i fentrau llawr gwlad sy'n deillio o'r gymuned. Byddai pwysleisio dulliau o weithio o lawr gwlad i fyny yn rhoi grym i bobl greadigol leol ac aelodau o'r gymuned fel y gallant gymryd perchnogaeth ar y strategaethau a'r camau gweithredu, gan arwain at ganlyniadau mwy ystyrlon a chynaliadwy.

Trwy gofleidio cyd-ddylunio, rhwydweithio a mentrau llawr gwlad, gall y diwydiannau creadigol yn Aberystwyth sefydlu fframwaith cydweithredol a chynhwysol sy'n meithrin arloesedd, creadigrwydd, a pherchnogaeth gymunedol. Mae dull gweithredu o'r fath yn hwyluso datblygiad cyflawn ac eang sy'n ymdrin ag anghenion a dyheadau amrywiol yr holl randdeiliaid.



## Cefnogi‘r economi leol a chylchol

Roedd llawer o’r sgyrsiau am ddiwydiannau creadigol llewyrchus yn ardal Aberystwyth yn sôn am y berthynas rhwng pwysau economaidd a’r metrigau economaidd arferol a ddefnyddir i fesur llwyddiant.




Nododd y cyfranogwyr fod tyndra rhwng y metrigau hyn a’r dyheadau am dwf personol a chymunedol.

Soniodd y cyfranogwyr hefyd y dylai’r gefnogaeth i'r diwydiannau creadigol osod y metrigau ar gyfer llwyddiant economaidd yn nhermau gwasanaethu diwylliant. Ac roedd y cyfranogwyr yn cefnogi’r sylwadau mai cyfrifoldeb i holl adrannau a gweinidogaethau'r llywodraeth, ar bob lefel, yw diwylliant ac na ddylid ei gyfyngu i un awdurdodaeth. Byddai lleoli diwylliant – yn enwedig diwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg – o fewn brand y diwydiannau creadigol yn cyfrannu at economïau cylchol llewyrchus, swyddi lleol, menter gymdeithasol a mannau cymunedol. Byddai ailgyfeirio diwylliant a’r chelfyddydau - o fod yn weithgarwch a wneir ar yr ymylon i rywbeth sy'n ganolog i bawb - yn gallu ysbarduno newid a chreu gwell lles ac economïau cynaliadwy.

# Argymhellion ar gyfer Cynnwys y Diwydiannau Creadigol mewn Ymgynghoriadau

Mae Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth yn fenter newydd a'i nod yw creu cyfleoedd arloesol i gyfnewid gwybodaeth ar draws y sectorau. Mae'r Ganolfan yn ceisio creu cyfleoedd i unigolion a sefydliadau ddod at ei gilydd, lle y byddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ceisio dod o hyd i atebion, ar sail tystiolaeth, i faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

FlourishCafe™ oedd un o'r cyfleoedd cyntaf i gynnal sgwrs o'r fath yn Aberystwyth. Mae profiadau yn ystod y digwyddiad a'r adborth a gawsom yn rhoi dealltwriaeth i lywodraeth leol a sectorau eraill ei hystyried pan fyddant yn ceisio cynnwys mentergarwyr creadigol ardal Aberystwyth.

## Canolbwyntio'r sgyrsiau ar anghenion ac atebion penodol

Mae strategaeth effeithiol yn dechrau drwy wneud synnwyr ar y cyd, lle mae'r grwpiau dan sylw yn cymryd rhan mewn sgyrsiau i rannu safbwyntiau ar y sefyllfa bresennol a phosibiliadau i'r dyfodol. Mae'n eu helpu i greu cyd-ddealltwriaeth am eu gorffennol, eu presennol a'u dyfodol.

Er hynny, mae aelodau'r diwydiannau hyn bellach yn awyddus i symud y tu hwnt i drafodaethau i gael dealltwriaeth, a mynd ymlaen i gamau gweithredu pendant. Mae ganddynt awydd cyfeirio eu hegni tuag at weithredu ymarferol yn hytrach na dim ond thrafod y materion dan sylw.

Mae llawer o'r cyfranogwyr a ddaeth i'r digwyddiad ar 15 Mehefin yn perthyn i gymunedau, sefydliadau a rhwydweithiau sy'n rhyngweithio â'i gilydd eisoes ers blynyddoedd. O ganlyniad, mae ganddynt eisoes gyd-ddealltwriaeth am yr heriau a'r atebion sy'n effeithio arnyn nhw eu hunain a'u sefydliadau.

Wrth gyfranogi yn y dyfodol, mae'n hanfodol dod o hyd i feysydd penodol lle y mae angen sylw o fewn strategaeth ehangach y celfyddydau a diwylliant. Y dull gweithredu ddylai fod meithrin cyswllt â'r gymuned a rhoi'r grym iddi fel y gallai ddod o hyd i gamau gweithredu realistig a'u blaenoriaethu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r cyfranogwyr yn chwilio am weithgareddau sy'n dilysu eu profiadau a'u gwybodaeth ac yn arwain at ganlyniadau go iawn y gallant eu hadnabod yn glir.

## Cynnwys hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg

Dylid sicrhau hefyd bod cefnogaeth i hwyluswyr Cymraeg eu hiaith yn y Canolbarth fel y gellir sicrhau bod hwyluswyr Cymraeg mewn digwyddiadau fel hyn i'r celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol yn y dyfodol. Drwy sicrhau mwy o gyfraniad gan siaradwyr Cymraeg mewn rolau cyd-hwyluswyr a hwyluswyr fe fyddai hynny'n gwella dyluniad y digwyddiadau drwy ddarparu dealltwriaeth ddyfnach am agweddau dwyieithog ac amlddiwylliannol bro Aberystwyth a'r Canolbarth ar sail profiad byw.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth y gymuned leol. Mae iaith hefyd yn dylanwadu ar sut mae unigolion a chymunedau'n deall y byd ac yn creu camau gweithredu o fewn y byd. Trwy gael hwyluswyr neu gyd-hwyluswyr sy'n medru'r Gymraeg, gall trigolion a rhanddeiliaid gymryd rhan mewn sgyrsiau, deialogau, a digwyddiadau cymunedol yn gyfforddus ac yn naturiol. Yn ogystal â helpu i oresgyn rhwystrau iaith posib, mae'r cydnawsedd

ieithyddol hwn hefyd yn meithrin ymdeimlad o gynwysoldeb a pherthyn, gan wneud cyfranogwyr yn fwy parod i fynegi eu syniadau a'u pryderon yn agored.

Ar ben hynny, mae hwyluswyr a chyd-hwyluswyr Cymraeg eu hiaith yn cynorthwyo â chynnal gwybodaeth ac arferion diwylliannol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn hanes y fro. Byddai hwyluso drwy'r Gymraeg yn helpu i sicrhau bod treftadaeth unigryw a diwylliannol y rhanbarth yn parhau i ffynnu, gan gyfoethogi hunaniaeth gyfunol y Canolbarth ac atgyfnerthu ei ymdeimlad o le.

## Cydnabod gwerth amser ac arian


I fentrwyr busnes a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiannau creadigol, mae cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â materion cyhoeddus yn gofyn am amser ac ymdrech. Mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod ac yn parchu'r gwirioneddau hyn.

Bydd digwyddiadau cyhoeddus yn aml yn darparu lluniaeth ysgafn i gyfranogwyr fel arwydd o ddiolch ac i'w cefnogi yn ystod sesiynau. Ar gyfer digwyddiad y FlourishCafé, fe aeth y Ganolfan Ddeialog gam ymhellach drwy ddarparu pryd da o safon uchel wedi'i baratoi gan fwyty lleol. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ymdrech ychwanegol a'r cinio ganol dydd yn elfen bwysig o'r rhaglenm gan helpu hefyd i gydnabod gwerth eu cyfraniad.

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â materion cyhoeddus yn gallu golygu bod cyfranogwyr yn gosod i'r naill ochr flaenoriaethau personol a photensial ennill incwm busnes posib. Gall eu cyfraniad arwain a golledion economaidd os ydynt yn hepgor cyfleoedd gwaith taledig er mwyn bod yn bresennol. Roedd hyn yn wir am roi o'r unigolion a fynychodd ddigwyddiad y FlourishCafé, a ddywedodd eu bod yn teimlo pwysau ariannol yn sgil cymryd pedair awr allan o'u prynhawn dydd Iau i fod yno.

Mae dod o hyd i iawndal ystyrlon am eu cyfranogiad yn lleihau'r effaith economaidd ar gyfranogwyr ac yn agor y drws ar gyfer mwy o amrywiaeth yn y rhai a all fod yn bresennol, gan gryfhau mewnbwn a chanlyniadau'r ymdrechion cydweithredol. Dylai trefnwyr ymgynghoriadau ystyried ffyrdd o ddigolledu cyfranogwyr am eu hamser a'u harbenigedd fel ffordd o gydnabod arwyddocâd eu cyfraniadau.

Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad oes gan y rhan fwyaf o fodelau cyllido'r llywodraeth ac addysg uwch systemau digonol ar gyfer darparu digolledu ariannol am gyfraniadau cyhoeddus fel hyn na chymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Mae digolledu yn ariannol y rhai sy'n cyfrannu at ddatblygu strategaethau a chynlluniau hefyd yn dangos ymrwymiad i gynwysoldeb, meithrin cysylltiadau yn deg ac iawndal teg sy'n greiddiol i lawer yn y diwydiannau creadigol.


CREATIVE FLOURISHING COMMUNITIES
ABERYSTWYTH
JUNE 15 2023
STIMULATING
VISION
THINKING
WHO WASN'T HERE ?
DISCURSIVE
collaborative
ENJOYABLE
energetic
PURPOSEFUL
equipped
mini
perspective
BREAKING new GROUND
PROCESS
INSIGHTS
ENGAGEMENT
TIRING
hopeful
THRIVING
Evaluation
nourished
ENJOYABLE
EXPERIMENTAL
supported
VALUED
LISTENING
voices
INSPIRED
JOY
FUN
-STOP-
-PAUSE-
-TALK-
SELF
REFLECTION

## Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth

Hoffai Canolfan Deialog Aberystwyth ddiolch i fentrwyr creadigol, sefydliadau a chynrychiolwyr cyhoeddus yr ardal am gymryd rhan.

Mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ac mae wedi cael ei rannu â staff Cyngor Sir Ceredigion ac aelodau Cyngor Tref Aberystwyth. Rydym yn croesawu trafodaethau pellach ynghylch ei ganfyddiadau ac ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r digwyddiad a'i ganlyniadau er mwyn helpu i gefnogi datblygu strategaethau a’u rhoi ar waith.

Yn rhan o'i strategaeth, mae Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ychwanegol ym meysydd hwyluso a deialog. Y nod hirdymor yw cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddysgu dulliau deialog arbenigol a sgiliau dylunio gweithdai, a chydweithio fel cyd-hwyluswyr neu hwyluswyr arweiniol yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cefnogi amcanion Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â’n gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil o fewn ein sefydliad dwyieithiog.

## FlourishCafe™

Roedd yn bleser ac yn fraint aruthrol cael cydweithio â’r Ganolfan Ddeialog ar y digwyddiad hanfodol hwn i bobl Aberystwyth a’r fro. Yr hyn a oedd yn amlwg i mi oedd bod y trigolion lleol yn ymserchu’n angerddol yn eu diwylliant lleol, eu bod yn chwarae rhan weithredol yn y materion sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymuned, a bod ganddynt lawer iawn o ddealltwriaeth a gwybodaeth am sut i’w helpu eu hunain, a chynorthwyo eu cymunedau a'u diwylliant lleol i ‘flodeuo’ yn y byd ar ôl COVID-19.

Credaf ein bod mewn cyfnod arbennig o gythryblus wrth i’r hen systemau a’r hen ffyrdd o wneud pethau gael eu herio, ac mae’n hollol iawn eu herio. Ond credaf hefyd fod hyn yn golygu ei fod yn gyfle gwych i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, llunwyr polisïau a thrigolion lleol ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio, trwy gynnal deialog wirioneddol, i gyd-greu dyfodol gobeithiol i drigolion lleol.

Dyna yn union oedd yr amcanion wrth ddylunio model FlourishCafé ar gyfer meithrin cysylltiadau cymunedol. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â'r Ganolfan Ddeialog a phobl cymuned Aberystwyth i helpu i fynd â'r digwyddiad ysbarduno hwn ymlaen i'r cam nesaf ar gyfer newid a gweithredu cymdeithasol ac i gynorthwyo â chyfleoedd gwirioneddol i’r trigolion lleol gael ‘blodeuo’ fel pobl, dinasyddion ac aflonyddwyr creadigol.

*Eri Mountbatten-O'Malley (PhD), Cyfarwyddwr a Gwesteiwr Arweiniol FlourishCafé™*